**Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth Cyngor Caerdydd**

# Hysbysiad Preifatrwydd y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion

Yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Du (GDPR), mae'r hysbysiad hwn yn dangos sut mae gwybodaeth am weithluoedd ysgolion yng Nghymru yn cael ei rhoi gan ysgolion ac awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) yn gasgliad data statudol blynyddol o wybodaeth am y gweithlu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth am weithlu ysgolion yn uniongyrchol gan yr ysgolion a'r awdurdodau lleol fel rhan o'r CBGY.  Mae'n ofynnol rhoi'r wybodaeth hon yn unol â Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017, a wnaed o dan adran 113(2) a (3) Deddf Addysg 2005.

Mae'r CBGY yn cynnwys pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys:

- ysgolion meithrin a gynhelir;
- ysgolion cynradd a gynhelir;
- ysgolion canol a gynhelir (ysgolion sy'n rhychwantu'r oedrannau);
- ysgolion uwchradd a gynhelir;
- ysgolion arbennig a gynhelir; ac
- unedau cyfeirio disgyblion (PRUs)

Am restr gyflawn o'r staff a gynhwysir yn y broses hon gweler manylion Casglu Data Llywodraeth Cymru yma.

Ar ôl derbyn y wybodaeth gan yr ysgol a'r awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru sy'n dod yn rheolwr data.

Mae'r categorïau gwybodaeth am y gweithlu ysgolion a fydd yn cael eu casglu a'u cadw yn cynnwys:

- Gwybodaeth bersonol a chategori arbennig amdanoch chi, megis
    - Rhif cyfeirnod athro (RhCA);
    - Enw Cyntaf;
    - Enw(au) canol;
    - Cyfenw:
    - Dyddiad Geni;
    - Rhyw;
    - Grŵp ethnig;
    - Statws anabledd a

**Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth Cyngor Caerdydd**

- Rhif Yswiriant Gwladol

- Gwybodaeth am eich cyflog a'ch cytundebau (megis graddfeydd cyflog, lwfansau, cydnabyddiaeth, a rheswm dros adael)
- Gwybodaeth am eich absenoldebau (gan gynnwys hyd yr absenoldeb a'i fath)
- Gwybodaeth am sgiliau Cymraeg
- Gwybodaeth am y pynciau rydych yn eu dysgu, math o swydd a rolau cysylltiedig.

Mae'r sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yn sgil tasg gyhoeddus Llywodraeth Cymru; hynny yw, arfer eu hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. Gelwir rhywfaint o'r data a gesglir ganddynt (yn yr achos hwn ethnigrwydd ac anabledd) yn 'ddata categori arbennig', a'r sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth hon yw ei bod yn cael ei chasglu at ddibenion ystadegol neu ymchwil.

Gellir gweld manylion llawn Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru at ddibenion y casglu data hwn yma

Am ragor o fanylion am y wybodaeth bersonol a gesglir a'r defnydd ohoni dylech gysylltu â:

- Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes, Pentwyn, Caerdydd. ysgolpenygroes@cardiff.gov.uk 029 20735723
- Swyddog Diogelu Data Cyngor Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 4UW, neu e-bostiwch RheoliGwybodaethYsgolion@caerdydd.gov.uk
- Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost Swyddogdiogeludata@llyw.cymru
- Llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 0330 414 6421 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
- mae gwybodaeth hefyd ar gael o www.ico.gov.uk

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**